

# ***Cyngor Cymuned Llanllyfni***

Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth y **12ed o Orffennaf 2011.**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Iwan Lloyd Williams (Cadair); Elwyn Jones-Griffith, Menna Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Dafydd Glyn Owen, Harry Wyn Owen, Martin Williams, Sharon W Jones – Talysarn; Richard Evans, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni.

**Gwadd:** Alex Higgins, Yn anffodus, nid oedd yr heddwes yn gallu mynychu'r cyfarfod.

## **Cynllunio**

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- Tir Bach, Llanllyfni – trosi adeilad allanol i fod yn anecs hunangynhaliol – cymeradwyo.
- Trigonos, Plas Baladeulyn, Nantlle – gosod 16 panel haul ar do tu allan – cymeradwyo.
- Plas Gwernoer, Nantlle – codi polytunnel – cymeradwyo.
- Talmaes Mawr Nebo – estyniad – cymeradwyo.
- Siop Pant Du, Penygroes – uned prosesu i wneud gwin a cider - cymeradwyo.

**Trwyddedu:** Clwb Bach, Penygroes – roedd y Cyngor yn gwrthwynebu ymestyn oriau agor tan 2.30 y.b. ac yn cynnig y byddai 12.30 yn fwy derbyniol i werthu alcohol, a chau drysau am 1.00 y bore. Mynegwyd pryder nad oes gymaint o heddlu ym Mhenygroes bellach i fedru ymateb yn hwyr yn y nos petai angen.

## **Gohebiaeth**

\*Trafodwyd llythyr a dderbyniwyd parthed arian Prosiect Cymunedau Cynaliadwy.

\*Derbyniwyd llythyr gan Asiantaeth yr Amgylchedd an y Cynllun Llifogydd Cymunedol, a byddwn yn holi mwy am y cynllun yma.

\*Derbyniwyd llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri, yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd – Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae'r adroddiad i'w gweld ar y we.

## **Adroddiadau Pentrefi.**

Penygroes Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i archwilio wal cae chwarae Cwting, ac i roi'r cerrig sydd wedi disgyn yn eu holau.

Roedd pryder bod graffiti, ffenestri wedi eu torri, a gwydrau ar safle Wynnstanley, a bod plant wedi eu gweld i fewn yn y warws.

Cafwyd cwynion am gyflwr y ffyrdd mewn nifer o ardaloedd – Hen Lon i Talysarn angen ei ail-wynebu a Talysarn i Nantlle, Ffordd y Brenin, gwaelod Allt Goch, a byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn.

Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd ail-brofi'r cerrig copa ar wal Glyn Llifon, gan bod rhai o'r cerrig yn ymddangos i fod yn rhydd.

Llanllyfni Parcio ar y palmentydd yn parhau I fod yn broblem yn y pentref, (a pharcio tu allan i'r Co-op ym Mhenygroes yn ogystal), a byddwn yn gofyn am bresenoldeb y wardeiniaid traffig.

Arwydd 30mya gwaelod Lon Ddwr angen sylw, wedi cael ei droi.

Talysarn Roedd cwyn bod golwg yn y Parc Sglefrio, gan nad yw y bin yn cael ei wagio. Mae angen ei wagio o leiaf pob pythefnos. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd am ddiogelwch y gyffordd o'r Hen Lon i'r Lon Newydd.

Cred y Cyngor yw nad yw'r drych yn effeithiol i welededd gyrrwyr pan yn tynnu allan, a bod dwy ddamwain wedi digwydd yno yn ddiweddar.

Derbyniwyd cwynion am gwn peryglus yn Gloddfa Glai, a bod trigolion y pentref eu hofn. Byddwn yn cysylltu gyda'r Warden Gwn.

Trafodwyd prisiau claddu'r Cyngor a phenderfynwyd cadw'r prisiau yr un fath i drigolion yr ardal eto eleni.